# ROWND YR HORN

*Sianti fôr draddodiadol (trefn. Owain Gethin Davies/Dyfan Jones)*

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Dyma Sianti Fôr a ganwyd ar fwrdd sgwneri Cymreig a llongau pysgota De Georgia, a fyddai'n aml yn defnyddio criwiau Cymreig.**

## THEMÂU/TESTUNAU

Daearyddiaeth/teithio/môr

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Y Dyniaethau
Iechyd a Lles
Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

9fed



### Ffurf Lleisiol

Unsain/rhan annibynnol

### Elfennau Cerddorol


Strwythur a pharhad

### Nodweddion Cerddorol

Rhythmau trawsacennog a dotiog, adran harmoni syml, strwythur pennill a chytgan syml

## Ymarferion Cynhesu

- Plygwch eich penliniau a phlygu drosodd yn llipa fel pyped. Dychmygwch fod llinyn yn eich tynnu i wahanol gyfeiriadau, gan symud a thyfu'n raddol i osgo tal a hyderus. Gadewch i'ch corf droi'n llipa unwaith eto ac ailddechrau'r ymarfer.
- Dychmygwch eich bod yn cnoi darn o daffi gludiog iawn. Defnyddiwch eich tafod i'w lacio o'ch dannedd.
- Dechreuwch drwy anadlu'n araf gan beidio codi'r ysgwyddau. Gadewch i'r aer lifo i mewn am bedwar curiad, daliwch am bedwar curiad, ac yna anadlwch allan yn naturiol.
- Rhythm nodweddiadol - clapiwch y rhythm canlynol:




## Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Dyma sianti môr gan Whalers o Dde Georgia. Darganfyddwch fwy am hanes morfila.
- Mae 6 allan o 13 o'r rhywogaethau morfilod mawr wedi'u hailddosbarthu fel rhai sydd mewn perygl neu'n agored i niwed. Darganfyddwch fwy am pam mae hyn yn bod.
- Pa anifeiliaid eraill sydd mewn perygl neu hyd yn oed yn ddiflanedig - pam?

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**

# ROWND YR HORN

*Sianti fôr draddodiadol (trefn. Owain Gethin Davies/Dyfan Jones)*

## Addysgu a Dysgu

**1** Gwrandewch ar recordiad o berfformiad llawn y gân amryw o weithiau. Dylai'r dysgwyr wrando a chanolbwyntio ar adnabod yr alaw a chlapio'r rhythm.

**2** Dechreuwch drwy ddysgu alaw y gytgan i bawb.

**3** Gofynnwch i'r dysgwyr ymuno drwy ganu'r gytgan gyntaf. Sicrhewch eu bod yn dilyn llinell yr alaw yn fanwl gywir a chanolbwyntiwch ar y rhythmau trawsacennog a dotiog.

**4** Adeiladwch y broses hon yn raddol a chyflwynwch alaw pennill 1.

**5** Os ydy'r dysgwyr yn cael anhawster gydag adran arbennig, gofynnwch iddynt wrando arnoch chi/y trac, ac yna gofynnwch iddynt ymuno unwaith eto.

**6** Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd ac yn hyderus gyda'r darn, dangoswch fannau sy'n addas iddynt anadlu a pherfformiwch y gytgan a'r pennill cyntaf.

**7** Efallai y bydd dysgu'r alaw yn ddigon o gynnydd ar gyfer un sesiwn, ac y byddwch yn penderfynu mynd i'r afael ag ail a thrydydd rhan y gytgan yn y sesiwn ganlynol.

**8** Os bydd y dysgwyr yn llwyddo i gynnal eu rhan a'ch bod yn hapus i symud ymlaen, cyflwynwch ail a thrydydd rhan y gytgan i bawb.

**9** Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus gyda phob rhan, rhennwch y dosbarth yn dri grŵp cyfartal. Rhowch yr alaw i un grŵp (rhan 1) a'r harmoni (rhan 2 a 3) i'r grwpiau sy'n weddill.

**10** Rhowch ddigon o gefnogaeth i'r ail a'r trydydd grŵp (rhan 2 a 3) wrth iddynt ddod o hyd i nodyn cyntaf y gytgan.

**11** Ceisiwch berfformio'r gân yn dri llais gyda'r recordiad. Cyfnewidiwch y rhannau fel bod pawb yn cael y cyfle i ganu'r naill ran a'r llall.

## Sgiliau Cyfannol

- Ceisiwch berfformio'r gân yn dri llais heb unrhyw gyfeiliant er mwyn i'r dysgwyr wrando'n astud ar sain yr harmoni tri llais. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i daro'r curiad ar offeryn taro. Dylai'r dysgwyr ganolbwyntio ar gywirdeb rhythm a thraw.

- Mae gan y gân hon ddau bennill a chytgan terfynol mewn cywair newydd. Darllenwch eiriau pennill 2, ac yna ymarfer gyda'r recordiad gan ganu'r gytagn mewn tri llais. Pan mae'r dysgwyr yn hapus gyda'r ddau bennill a'r gytgan, ewch ati i ymarfer y gytgan terfynol yn y cywair (uwch) newydd.

- Anogwch y dysgwyr i ynganu'n glir wrth berfformio. Sicrhewch nad ydynt yn brathu'r nodau byr olaf ar ddiwedd rhai o'r brawddegau, gan y bydd hyn yn effeithio ar ansawdd y sain.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**

# ROWND YR HORN

*Sianti fôr draddodiadol (trefn. Owain Gethin Davies/Dyfan Jones)*

Cân Sing

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*
*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Gwrandewch ar recordiadau o wahanol ganeuon môr a'u gwerthuso. Trafodwch y prif nodweddion, gwrandewch ar y geiriau a thrafodwch y stori. Rhyddhawyd recordiad o'r gân hon gan The Hennesseys, un o grwpiau gwerin traddodiadol mwyaf blaenllaw Cymru, ar yr albwm 'Ar lan y môr' ym 1970. Gwrandewch ar recordiad ohoni a'i gwerthuso.

- Mewn grwpiau bychain, gallai'r dysgwyr ddefnyddio geiriau a rhythm y gytgan i gyfansoddi alawon newydd sy'n cynnwys un naid, gyda gweddill y nodau yn symud fesul cam.

- Dysgwch sianti fôr arall, (ee. 'John Kanaka'). Pan fydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r gân hon, gallant gymharu'r ddau sianti gan wneud sylwadau ar strwythur, gwead a thraw.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Ymatebion grŵp**

- Pa fath o awyrgylch mae'r gân yn ei greu? Eglurwch eich ateb.
- Beth yw strwythur y gân? Eglurwch eich ateb.
- Ym mha ffordd arall y gallem drefnu perfformiad o'r gân?

### Adborth

**Adnodd: Sut i wella**

Drwy osod targedau, dangoswch i'r dysgwyr sut i wella. Targed addas i rai fyddai sicrhau taro'r nodau gweinion yn y penillion yn hyderus ac amserol. I eraill, efallai mai canolbwyntio ar gyflawni ynganiad clir fyddai'r nod. Arddangoswch eich hun, neu drwy chwarae recordiad. Wedi rhoi amser i'r dysgwyr wella, sicrhewch bod y targedau wedi eu cyflawni.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Her Post-it**

Grwpiau, parau ac unigolion i werthuso eu dysgu. Er enghraifft, drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- 'Beth ydw i wedi dysgu?',
- 'Sut wnes i ddysgu hyn?',
- 'Beth oedd yn hawdd/anodd i mi?',
- 'Beth sydd angen i mi wneud nesaf?'

Dylai'r dysgwyr ysgrifennu eu sylwadau ar nodiadau 'post-it' cyn eu rhannu gyda gweddill y dosbarth. Mae'r dechneg hon yn canolbwyntio ar feddwl am ddysgu ac yn annog dysgwyr i ystyried eu camau nesaf.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**